Dŵr Cymru
Welsh Water

Datganiad Polisi Ansawdd

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddarparu dŵr yfed glân a diogel, a gwasanaethau glanweithdra i'n cwsmeriaid – heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn unol â diffiniad Dŵr Cymru 2050. Ein gweledigaeth yw ennill ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd trwy ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn yn well na neb. Mae Dŵr Cymru'n ymdrechu i gwrdd ag anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid – a mwy – mewn amgylchedd o welliant parhaus.

Gwnawn hyn trwy:

— Ddarparu fframwaith ar gyfer pennu ac adolygu targedau ac amcanion o ran ansawdd a threfnu pwy sy'n gyfrifol am yr amcanion.

— Dal i weithredu System Rheoli Ansawdd sy'n cynnwys y wybodaeth y mae'n ofynnol ei dogfennu a'i chadw o dan ISO 9001:2015.

— Gwella effeithiolrwydd ein System Rheoli Ansawdd yn barhaus trwy fanteisio'n llwyr ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein gweithwyr a thrwy gynlluniau hyfforddi a datblygu a gynlluniwyd ymlaen llaw.

— Cyfleu cynnwys y Polisi Ansawdd i gydweithwyr yn Dŵr Cymru a chyfranogwyr perthnasol.

— Mynd ati'n rheolaidd ac yn barhaus i wahodd, gwerthuso a monitro gwybodaeth am foddhad cwsmeriaid a chydweithwyr.

— Sicrhau gwasanaethau o safon uchel yn ein holl weithgareddau busnes i'n holl gwsmeriaid a chyfranogwyr trwy fonitro ymgysylltiad cwsmeriaid a'r gweithlu â'r cwmni.

— Cydymffurfio â'r holl safonau a gofynion cyfreithiol ac eraill sy'n berthnasol ac yn ymwneud â'n System Rheoli Ansawdd.

— Pennu, mabwysiadu a rhannu 'arferion gorau' yn ein holl weithgareddau busnes, yn cynnwys rheoli, trefniadau gweithredol a thechnolegau.

— Monitro cydymffurfiaeth â'r safon trwy adolygiadau misol ar lefel Cyfarwyddwyr. Adrodd wrth Bwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd bob tri mis.

— Bod yr uwch-reolwyr yn dangos arweiniad ac ymroddiad trwy fod yn atebol am effeithiolrwydd y System Rheoli Ansawdd, gan sicrhau ei bod yn cael ei hintegreiddio â phrosesau a chyfeiriad strategol Dŵr Cymru, gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg.

Mae System Rheoli Ansawdd Dŵr Cymru yn ymgorffori gofynion Safonau MCERTS ar gyfer Hunan-fonitro Llif Elifiant.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a/neu pan gyfyd newidiadau arwyddocaol.



Peter Perry
Prif Weithredwr
Dŵr Cymru
Ebrill 2021